# CABINET

## DYDD LLUN 29AIN IONAWR 2024

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D. Price (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
G. Davies L.D. Evans A. Lenny E.G. Thomas
J. Tremlett

**Y Cynghorydd (Yn rhithwir):**
C.A. Davies H.A.L. Evans A. Vaughan Owen

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters – Prif Weithredwr
C. Moore – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
A. Williams - Cyfarwyddwr Lle & Cynaladwyedd
G. Morgans – Cyfarwyddwr Addysg & Gwasanaethau Plants
R. Griffiths – Pennaeth Lle & Cynaladwyedd
J. Jones – Pennaeth Adfywio, Polisi & Digidol
L. Rees-Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
C. Higginson – Rheolwr y Cyfryngau
E. Evans – Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
C. Jones – Swyddog Cyfathrebu
J. Owen – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
M. Evans Thomas – Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymeryd Nodiadau]
D. Hall-Jones – Swyddog Cymorth i'r Aelodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP : 10.00 yb – 10.27 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. M. Hughes.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd/ Swyddog | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd G. Davies | 8 – Llywodraethwr Awdurdod Lleol | Mae'n destun yr adroddiad |
| Y Cynghorydd H.A.L. Evans | 13 – Tir Datblygu Preswyl yn Fferm Myddynfych, Bonllwyn, Rhydaman | Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Bro Myrddin |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd L.D. Evans | 7 - Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg | Mae ei merch yn dysgu |
| Y Cynghorydd A. Vaughan-Owen | 7 - Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg | Mae ei wraig yn gweithio yn un o ysgolion y sir |

**3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 15EG IONAWR, 2024**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 15eg Ionawr 2024 yn gofnod cywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GARFYRDDIN 2018-2033 - ASESIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG AC ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD (GAN GYNNWYS ATODIADAU) YMGYNGHORI PELLACH**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a baratowyd yn dilyn y penderfyniad yn y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2022 i baratoi ail fersiwn Adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl) a chyhoeddiad dilynol y Cynllun ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr heriau parhaus o ran bodloni'r gofynion mewn perthynas â'r rheoliadau cynefinoedd sy'n deillio o ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd ac ansawdd dŵr a'r angen i sicrhau bod paratoadau'r Cynllun a'r ystyriaeth o gwmpas a chynnwys y Cynllun yn cydymffurfio'n â deddfwriaeth a rheoliadau gweithdrefnol.

Roedd yr adroddiad yn ceisio awdurdod i gynnal ymgynghoriad pellach ar y dogfennau ategol canlynol:-

- Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (gan gynnwys Atodiad 1); ac
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (gan gynnwys Atodiadau 1 a 2)

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 Ystyried a chymeradwyo cynnwys yr Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (yn cynnwys Atodiad 1) a'r Asesiad Rheoliadau**

**Cynefinoedd (yn cynnwys Atodiad 1 a 2) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol fel dogfennau ategol i Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin);**

**6.2 cymeradwyo cyflwyno'r dogfennau a'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad fel rhan o'r archwiliad;**

**6.3 rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud unrhyw newidiadau teipograffyddol yn ôl yr angen, i wella eglurder o ran ystyr.**

## 7. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - STRATEGAETH (RHMA)

[NODER: Roedd y Cynghorwyr L.D. Evans ac A. Vaughan-Owen wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Cabinet yn ystyried Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn dilyn ei adolygiad diweddar.

Penderfynodd y Cyngor Sir yn 2010 y dylid adolygu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg bob dwy flynedd neu fel arall yn ôl yr angen i sicrhau cysondeb ag amserlen Rhaglen genedlaethol Ysgolion yr 21ain Ganrif (a ailenwyd yn Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy)

Nodwedd ganolog y Rhaglen Moderneiddio Addysg ers ei sefydlu yw'r angen i gadw hyblygrwydd wrth wraidd y rhaglen i sicrhau ei bod yn parhau'n gyfredol ac yn ymateb i newidiadau yn y fframwaith polisi addysg ac anghenion cymdeithas a chymunedau sy'n datblygu'n gyson. Mae hyn yn fwy amlwg nag erioed yn yr hinsawdd sydd ohoni / ar ôl y pandemig. Mae adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, yn unol â'r gofyniad i gyflwyno rhaglen amlinellol strategol ar gyfer y rhaglen dreigl newydd erbyn mis Mawrth 2024.

O ganlyniad, datblygwyd Strategaeth newydd ar gyfer y Rhaglen Moderneiddio Addysg i gyfarwyddo cyflawni'r Rhaglen Moderneiddio Addysg newydd yn y dyfodol. Mae'n cael ei harwain gan set o amcanion strategol a'i thanategu gan ddarnau diben ac egwyddorion addysgol yr adran i sicrhau cydlyniad â'r 8 Blaenoriaeth Addysg ar gyfer 2022-2025 a strategaeth Addysg Sir Gâr 2022-2032. Mae strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cynnwys set o feini prawf hyfywedd a buddsoddi i sicrhau dull priodol a thryloyw o ddatblygu trefniadaeth ysgolion a chynigion buddsoddi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR y dylid cymeradwyo Strategaeth ddiwygiedig y Rhaglen Moderneiddio Addysg**

## 8. PENODI LLYWODRAETHWR AR RAN YR AWDURDOD LLEOL

[NODER: Yn dilyn datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ni fu'r Cynghorydd G. Davies yn rhan o'r broses o'i hystyried nac o ddod i benderfyniad arni.]

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y ffaith bod y Cynghorydd Glynog Davies yn gwasanaethu fel Llywodraethwr yr Awdurdod

Lleol a Chadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Brynaman. Mae ei gyfnod presennol yn y swydd yn dod i ben ar 31 Ionawr ac mae wedi mynegi diddordeb mewn cael ei ailbenodi i'r swydd am dymor arall yn y swydd.

O dan amgylchiadau arferol, penodir Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol gan y Cynghorydd Glynog Davies ei hun yn ei rôl fel Aelod Cabinet dros Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg. Fodd bynnag, o ystyried yr amgylchiadau, roedd yn cael ei ddwyn gerbron y Cabinet i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ailbenodi'r Cynghorydd Glynog Davies i swydd Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Brynaman am dymor arall yn y swydd.**

## 9. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

## 10. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 11 TREFN Y MATERION

Dywedodd y Cadeirydd, o ystyried y datganiad o fuddiant a wnaed mewn perthynas ag eitem 11 ar yr agenda, ei fod yn dymuno amrywio trefn y materion sy'n weddill ar yr agenda a thrafod eitem 12 ar yr agenda nesaf, ac yna eitem 11.

## 12. PRYNU EIDDO YNG NGHANOL TREF CAERFYRDDIN

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 10 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod oherwydd gallai datgelu'r wybodaeth hon danseilio'r perchennog tir presennol a safle'r Cyngor mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â hyn ac eiddo tebyg arall yn y sir, ar draul y pwrs cyhoeddus a pheri risg i'r prosiect hwn a phrosiectau adfywio tebyg eraill.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad yn manylu ar gynnig i brynu eiddo yng Nghanol Tref Caerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 bod y bwriad i brynu'r brydles o ran yr eiddo yng nghanol tref**

**Caerfyrddin a nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar gymeradwyo'r telerau prynu, o fewn y paramedrau y cytunwyd arnynt gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau.**

**12.2 bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, i gwblhau'r telerau prynu a chwblhau'r pryniant.**

## 13 TIR DATBLYGU PRESWYL YN FFERM MYDDYNFYCH, BONLLWYN, RHYDAMAN

[NODER: Gan ei bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd H.A.L. Evans y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 10 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn anfantais faterol i'r Awdurdod mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon, a gallai cael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad yn manylu ar werthiant arfaethedig tir mewn perthynas â datblygiad preswyl yn Fferm Myddynfych, Bonllwyn, Rhydaman.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gytuno ar werthu'r tir, ar y telerau ac amodau y manylir arnynt yn yr adroddiad.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**